GAIR GAN Y GWEINIDOG: *CROESI FFINIAU*

Darlleniad: Luc 10: 29 - 37

29 Ond roedd y dyn eisiau cyfiawnhau ei hun, felly gofynnodd i Iesu, *"Ond pwy ydy fy nghymydog i?"*
30 Dyma sut atebodd Iesu: "Roedd dyn yn teithio i lawr o Jerwsalem i Jericho, a dyma ladron yn ymosod arno. Dyma nhw'n dwyn popeth oddi arno, ac yna ei guro cyn dianc. Cafodd ei adael bron yn farw ar ochr y ffordd. 31 Dyma offeiriad Iddewig yn digwydd dod heibio, ond pan welodd y dyn yn gorwedd yno croesodd i ochr arall y ffordd a mynd yn ei flaen. 32 A dyma un o Lefiaid y deml yn gwneud yr un peth; aeth i edrych arno, ond yna croesi'r ffordd a mynd yn ei flaen. 33 Ond wedyn dyma Samariad yn dod i'r fan lle roedd y dyn yn gorwedd. Pan welodd e'r dyn, roedd yn teimlo trueni drosto. 34 Aeth ato a rhwymo cadachau am ei glwyfau, a'u trin gydag olew a gwin. Yna cododd y dyn a'i roi ar gefn ei asyn ei hun, a dod o hyd i lety a gofalu amdano yno. 35 Y diwrnod wedyn rhoddodd ddau ddenariws i berchennog y llety. *"Gofala amdano,"* meddai wrtho, "Ac os bydd costau ychwanegol, gwna i dalu i ti y tro nesa bydda i'n mynd heibio."
36 "*Felly*" meddai Iesu, *"yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?"*
37 Dyma'r arbenigwr yn y Gyfraith yn ateb, *"Yr un wnaeth ei helpu."*
A dwedodd Iesu, *"Dos dithau a gwna'r un fa*th."

Da ni'n aml yn meddwl am Ddameg y Samariad Trugarog fel stori sy'n gwneud i ni deimlo'n dda ac yn ein hannog i ddal ati i helpu'n gilydd ond mewn gwirionedd, mae ei neges yn llawer mwy heriol, Mae'n neges sy'n ein procio o'n cuddfa cysur ac yn ein hysbrydoli i dyfu fel Cristnogion ac fel bodau dynol.

Er mai stori gan Iesu yw hi yn hytrach na naratif hanesyddol, mae'r stori wedi ei gwreiddio ar adeg arbennig a lleoliad penodol. Mae deall y stori yn golygu edrych ar y gwrthdaro a'r rhaniadau a fodolai yng nghyfnod Iesu rhwng Iddewon a Samariaid a'r bwlch mawr a fodolai rhwng yr offeiriaid *'glân'* oedd yn cael eu dewis i weini yn y deml a'r gweddill *'aflan'* y tu allan.

Mae hefyd yn ein gorfodi i gydnabod y rhaniadau hynny sy'n bodoli yma heddiw a dysgu goresgyn yr ofnau a'r diffyg ymddiriedaeth (digon dealladwy) sydd gennym gyda chariad a thosturi sy'n cael ei wireddu mewn help ymarferol. Mae'n hymateb i'r cwestiwn "Pwy yw fy nghymydog?" a'r symbyliad i'w helpu yn cael ei ddylanwadu gan y person dan sylw – boed yn aelod o'r teulu, yn ddieithryn, yn elyn neu yn gymydog – a hynny'n cael effaith ar ein symbyliad i'w helpu.

MENTRO DROS FFINIAU

Gadewch i ni feddwl am dair ffordd y gallem fod yn cael ein galw fel Cristnogion i groesi ffiniau heddiw.

Esiampl 1: MENTRO DROS FFINIAU IEITHYDDOL

Yn ddiweddar, cefais i a rhai ohonoch chi y cyfle i fod mewn gwasanaeth ar gyfer eglwysi Bangor gyda'i gilydd, pobl o wahanol draddodiadau sy'n gweithredredu drwy ddwy wahanol iaith.

Fel un a fagwyd mewn cartref dwyieithog, fy nhad yn ymgyrchydd yn erbyn erydiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg a fy mam yn Albanes a fagwyd yn Lloegr ac a deimlai'n aml yn estrones yn y gymuned, efallai fy mod ers yn ifanc wedi bod yn ymwybodol o'r tensiynau posib sy'n medru codi yn ein cymdeithas oherwydd ein gwahaniaethau.

Yn y gwasanaeth ddwyieithog yma gwahoddwyd y ddwy gymuned ieithyddol i groesi'r ffordd at ochr y llall. Mae Cymry Cymraeg yn medru teimlo'n chwithig wrth addoli yn Saesneg, yn enwedig gan mai yr eglwys a'r oedfa yw un o'r ychydig gylchoedd lle gallant fwynhau clywed dim ond eu mamiaith. I addolwyr Saesneg eu hiaith, cawsant eu gwahodd i ymuno i ddweud a chanu geiriau nad oeddent yn eu deall, profiad sydd hefyd yn medru creu teimlad o ofn neu chwithdod.

Ond i lawer ym Mangor, mae cyd-addoli dwyieithog yn beth arferol erbyn hyn, ac yn fwy na hynny, mae gwir gyfeillgarwch wedi tyfu ar draws ffiniau wrth gyd-addoli a chydweithio ar brosiectau fel y Banc Bwyd ac Agor y Llyfr. Yn y berthynas honno mae ofnau yn medru diflannu a pharch ac ymddiriedaeth yn medru tyfu.

Esiampl 2: MENTRO DROS FFINIAU OED A DIWYLLIANT

Yn fy ngwaith, dwi bob amser yn gwerthfawrogi cyfleoedd i dreulio amser gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Fel rhiant fy hun, dwi'n sylweddoli mor wahanol ydy plant heddiw i'r hyn oeddwn i yn eu hoed nhw. Weithiau mae eu ffordd o siarad, yn wir, eu diwylliant cyfan, yn gallu teimlo ei fod yn dod o blaned arall, a dwi'n siwr eu bod nhw'n teimlo'r un fath amdana i!

Mae'r ddameg hon yn ein gwahodd i groesi'r ffordd at ochr y bobl ifanc hyn, i ddysgu siarad eu hiaith ac, yn bwysicach, i wrando arnynt. Er eu hyder, mae nhw angen ein cefnogaeth fwy nag erioed wrth ddysgu byw ym myd gorffwyll y We sydd byth yn cysgu.

Mae cwrdd â phobl ifanc yn ein herio hefyd i edrych ar ein ffydd a'n ffordd ni o wneud pethau a gofyn, *"faint o'r hyn dwi'n gwneud a dweud fel Cristion sydd yn perthyn i'r Efengyl a faint sy'n perthyn i 'niwylliant'?* Faint mor bwysig i mi ydy gwarchod 'y glendid a fu' ar draul bod yn barod i wneud pethau gwerthfawr ddoe mewn ffordd newydd heddiw? Ydy hi ddim yn hen bryd i ni groesi'r ffordd at y genhedlaeth nesa yn lle disgwyl iddyn nhw 'ddod atom ni'.

Esiampl 3: MENTRO ARDDEL PERTHYNAS GYDA'R DIODDEFWYR

Mae corff bychan yn cael ei olchi ar draeth ac yn gorwedd yno fel tegan ddoe. Mae mam yn Kyev yn galaru wedi colli ei meibion ac yn Moscow mae mam arall ar ochr arall y gyflafan yn mynd drwy'r un profiad. Caiff sifiliaid Israelaidd eu caethiwo fel gwystlon mewn byncyrs tanddearol a bomiau Israel yn lladd sifiliaid Palesteinaidd. Weithiau mae nhw'n lladd eu pobl eu hunain. Mae pedwar dyn ifanc diniwed sy'n sgwrsio dros baned o goffi yn cael eu lladd ar amrantiad, yn 'ddifrod derbyniol' i ymosodiad milwrol.

Mae'r camerâu awchus yn bwydo ar y lluniau erchyll yma ac yna'n symud ymlaen at y peth nesaf, ond beth amdanom ni? Pethau erchyll yn digwydd i bobl ddieithr ydy'r rhain,

wedi'r cyfan, felly fe newidiwn ni i sianel arall, ein ffordd ni o fynd o'r tu arall heibio, a dewis gwylio ein hoff gomedi neu 'murder mystery'.

Ond mae Samariad trugarog Iesu yn mynnu ein bod ni yn hytrach yn dweud "Ein plant ni ydy'r plant da chi'n lladd, ein brodyr a'n chwiorydd ni sy'n boddi ar eu ffordd draw i geisio noddfa. Ein pobl ni ydy'r bobl da chi'n trafod eu cludo i Rwanda fel rhyw gargo o nwyddau diangen." Beth fyddech chi'n fodlon ei wneud i ddiogelu eich anwyliaid? Yr ateb, wrth gwrs, ydy unrhywbeth sydd o fewn eich gallu.

Mae Samariad Trugarog Iesu yn ein cymell i addunedu heddiw: "Wnawn ni ddim troi ein pennau nac anwybyddu beth sy'n mynd ymlaen. Fyddan ni ddim yn ddistaw wyneb yn wyneb â'r dioddefaint a'r marwolaethau diangen yma. A phan fyddwch chi'n gorchymyn ymosodiadau o'r awyr sy'n lladd ac yn anafu, fydd hynny ddim yn ein henw ni – oherwydd ein cymdogion ni ydy'r bobl hyn!"

Ym mis Chwefror bydd dechrau Cyfnod y Grawys, cyfnod traddodiadol i Gristnogion gymryd amser i fyfyrio am eu bywydau a'u byd yng ngoleuni goleuni a gobaith Crist. Daw manylion atoch yn fuan am gyfleoedd y Grawys eleni yn Emaus.

Caeri M Jones

DEWI DAVIES

Ddiwedd y flwyddyn, daeth y newydd trist am farwolaeth un o'n haelodau ffyddlon ac aelod a diacon ffyddlon ym Mhendref sef Mr Dewi Davies, 14 Bryn Eithinog. Cydymdeimlwn ag Olwen ei briod a'r teulu cyfan yn eu colled o ŵr, tad, taid a hen daid annwyl. Diolch i'r teulu am y bywgraffiad hyfryd isod ohono ac i'r Parchedig John Gwilym Jones, ei gyn-weinidog a ffrind agos am eiriau a'i englyn arbennig er cof am Dewi.
Diolch hefyd i Wendy Davies, cyd-ddiacon ym Mhendref am ei hatgofion hithau o gyfraniad Dewi.

TEYRNGED Y TEULU

Cafodd Dewi ei eni ym Mlaenplwyf ger Aberystwyth ond cafodd ei fagu yn Nolybont, tyddyn bychan yng Nghwmllinau, Sir Drefaldwyn. Fe gollodd ei rieni yn ifanc iawn a'i orfododd i fod yn annibynnol a dyna fu ei hanes ar hyd ei oes.
Aeth i wneud ei *'National Service'* ac yna'n ddiweddarach ymunodd â'r heddlu. Cafodd ei swydd gyntaf fel cwnstabl ym Mhwllheli. Erbyn hynny roedd wedi cyfarfod a phriodi Olwen ac roedd hi

wedi gobeithio cael mynd i fyw i Bwllheli, ond fe'i symudwyd i Fangor lle ganwyd Menai a Rhian a'u magu yn 32, Strand St, Hirael. Gweithiodd Dewi yn galed ar ei arholiadau nes cyrraedd rheng Prif Arolygydd. Symudodd y teulu i Fflint, wedyn Conwy ac yna yn ôl i 14, Bryn Eithinog, Bangor.

Yma, cafodd bleser o drin yr ardd, ac fe dreuliodd lawer i awr yn y tŷ gwydr yn plannu a thrin ei domatos. Nid oedd neb arall ddigon da i dorri'r lawnt ac roedd yn werth gweld y blodau yn eu llawn gogoniant.

Golffio oedd un o'i ddiddordebau eraill ac roedd Clwb Sant Deiniol yn agos i'w galon. Yno bu yn ysgrifennydd, trysorydd, cadeirydd a hyd yn oed *"groundsman"*. Chwaraeodd golff ddwywaith yr wythnos hyd at y Cyfnod Clo. A dweud y gwir, roedd yn fodlon ei fyd pan yn gwylio unrhyw fath o chwaraeon ar y teledu, boed yn snwcer, rygbi, pêl-droed neu golff. Yn ddiweddarach, cychwynnodd ganu gyda Chôr Meibion y Penrhyn gan fwynhau'r gwmnïaeth a'r teithio.

Buodd yn ffodus i ddod yn daid ac yn hen daid gan weld ei wyrion a'i wyresau yn tyfu ac yna deuddeg o or-wyrion. Doedd dim yn ormod iddo, gan roi pob math o gymorth ac arweiniad iddynt i gyd. Yr un fu ei ofal, yn y blynyddoedd diwethaf, dros Olwen gan sicrhau ei chysur yn ddiwyd a chariadus.

Ar hyd ei oes mae'r capel wedi bod yn greiddiol i'w fywyd, o Sammah yng Nghwmllinau hyd at Eglwys Emaus ym Mangor, ond fe dreuliodd y blynyddoedd dedwyddaf yng Nghapel Pendref lle bu'n ddiacon ac yn drysorydd.

ATGOFION Y PARCHEDIG JOHN GWILYM JONES

Pan gyrhaeddais i weinidogaethu ym Mhendref roedd Dewi ac Olwen a'r teulu eisoes yno yn rhan ffyddlon o fywyd yr eglwys, a buan iawn y daethom i sylweddoli eu bod yn deulu eithriadol o deyrngar i weithgareddau'r eglwys. Roedd Dewi o ran ei fagwraeth wedi ei wreiddio yn nhraddodiadau gorau ei fro enedigol ym Maldwyn. A byddai yn ymdaflu gydag egni i gyflawni pob cyfrifoldeb. Yn ei alwedigaeth o fewn i'r heddlu, roedd y modd y dyrchafwyd Dewi o safle i safle yn dangos y ffydd a oedd gan yr uchelswyddogion yn ei allu.

Yna yn ei oriau hamdden byddai yn mwynhau amrywiaeth o ddiddordebau gan gynnwys y maes golff a chanu corawl. Yr un nodwedd a welid gyda Dewi ym mhob gweithgaredd, sef ei frwdfrydedd ymroddgar i'w fwynderau hamdden fel yn ei waith a'i alwadau.

Fe gyflawnodd ddyletswyddau amrywiol yn gysylltiedig â bywyd eglwys, a gallem ddibynnu arno i gwblhau pob tasg yn raenus, gan gynnwys ei ddiaconiaeth. Mewn pwyllgorau swyddogion byddai ei farn bob amser yn gytbwys, a byddai'n mynegi'r farn honno mewn ffordd gynnil a brawdol.

Yn gyffredinol, y mae'r graen a welir heddiw ar fywyd niferoedd o eglwysi, hyd yn oed mewn cyfnod o drai, i'w briodoli i raddau helaeth ar gyfraniad tawel pobol fel Dewi dros flynyddoedd lawer. Y mae ein dyled yn fawr i ffyddlondeb aelodau tebyg iddo ef.

DEWI DAVIES

Oes union o wasanaeth - a roddodd,
mwynhaodd gwmniaeth
hoen ei wên, a'r hyn a wnaeth,
fynegai ei gefnogaeth

J Gwilym Jones

RHAN O LYTHYR WENDY DAVIES OEDD YN GYD-DDIACON Â DEWI YM MHENDREF

Rwy'n meddwl am y cyfan a wnaeth Dewi dros Bendref. Ei ddoethineb fel diacon, ei fanylder fel trysorydd a'r oriau, y dyddiau, yn wir pob wythnos a dreuliodd yn trwsio a thwtio ac archwilio cyflwr yr adeiladau a sicrhau fod popeth yn ei le ar gyfer pob cyfarfod. Ychydig oedd yn sylweddoli mor enfawr oedd ei gyfraniad diarbed dros y blynyddoedd.

A'r tu cefn i'r holl weithgarwch a'r cymwynasgarwch roeddech chi Olwen, yn gefn cadarn iddo ac yn cynnal cartref cynnes, croesawgar a dedwydd iawn i'r teulu cyfan.
Gyda'ch gilydd gyda Menai a Rhian a'r wyrion a wyresau cawsoch brofi llawnder bywyd a mwynhau achlysuron arbennig sy'n dod a gwên i'r wyneb a fydd yn dal i ddod â phleser i chi am byth.

GAIR I GLOI GAN Y GWEINIDOG

Mor addas i Dewi o ran ei ymroddiad ffyddlon i'w deulu, ei waith fel plismon, i'w gymuned ac i Eglwys Iesu Grist, ydy'r geiriau yma o ddameg y talentau 'A dywedodd ei arglwydd wrtho, *"Da was, da a ffyddlon...dos i mewn i lawenydd dy arglwydd."'*

Llongyfarchiadau mawr i Meilir Williams,
mab Delyth a Richard Williams Eithinog
a Gwenllian Haf o Gaerdydd
ar eu dyweddiad.

Mae gan y teulu flwyddyn brysur o'u blaenau
gan fod brawd Meilir, sef Rhodri
wedi dyweddio llynedd.

Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

Y CÔR MEIBION HYNAF YNG NGHYMRU GYDA HANES DI-DOR

TAITH CYMRU
CÔR MEIBION DYFNANT
RHYS MEIRION
CHWEFROR 17 2024 - 7:30 pm
EGLWYS GADEIRIOL BANGOR
TOCYN - £15

Tocynnau y cyngerdd
ar gael am £15
gan Nia Llwyd

BANC BWYD Y GADEIRLAN

Ar ddechrau blwyddyn mae'n briodol diolch o waelod calon i'r holl bobl sydd wedi cefnogi'r banc bwyd dros nifer o flynyddoedd erbyn hyn, boed hynny drwy weddi a thrwy roi nwyddau gwahanol. Mae'n dyled yn fawr i chi gyd.
Efallai eich bod yn gwybod bod Banc Bwyd y Gadeirlan yn gweithredu'n wahanol i rai eraill a geir yn yr ardal hon. Mae taflen ddeiet wedi'u llunio gan ddeietegydd er mwyn sicrhau bod pob un sy'n derbyn pecyn yn cael y fitaminau a'r maeth angenrheidiol. Rhennir y pecynnau fel hyn: sengl, teulu, sengl argyfwng, sengl â nwyddau nad oes angen eu coginio (*dim ond eu cynhesu*) a phecyn ar gyfer llysieuwyr. Yn ogystal mae nwyddau ar gyfer babanod ar gael, ynghyd â nwyddau ymolchi fel sebon, shampŵ, gel cawod, brwsys a phast dannedd. Mae nifer dda yn gofyn hefyd am fwyd ar gyfer ci/cŵn a chath/cathod. Mae angen i bob unigolyn gael nodyn cyfeirio gan asiantaethau penodol, a chânt ymweld hyd at deirgwaith. Mae'r banc ar agor dair gwaith yr wythnos rhwng 2 a 3 ar ddyddiau Llun, Mercher a Gwener, gyda thîmau gwahanol o rhwng 7 ac 11 yn gweithio ymhob sesiwn.
Mae'r banc yn derbyn grantiau gan rai ffynonellau ac mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod digon o'r nwyddau angenrheidiol ar gael. Ni ellir dibynnu ar bobl i roi'r holl fwyd sydd angen bob wythnos. Felly, wrth i flwyddyn newydd agor, â'r galw am fwyd gynyddu'n gyson, yn enwedig yn sgil costau byw yn codi a phrisiau bwyd hefyd yn llawer uwch, derbyniwch ein diolch diffuant ac os gwelwch yn dda daliwch ati i'n cefnogi.

D.M.

DIOLCH

Mae ein diolch y mis yma i Nia Llwyd
am annog amryw i gyfrannu
ac am gydlynu'r deunydd ar gyfer y rhifyn yma.

Diolch i bawb a fu'n ufudd i'w chais ac a anfonodd gyfraniad.

NEGESYDD MAWRTH

Yr ydym yn gobeithio y byddwch chi, ac eraill yr un mor barod
i gyfrannu deunydd i rifyn MAWRTH.

Dylid gyrru eitemau ar gyfer rhifyn MAWRTH y Negesydd
at olygydd y rhifyn,
Siân Eleri Morgan
erbyn 18 CHWEFROR,
os gwelwch yn dda.

e-bost: *sianelerimorgan@gmail.com*
gyda chopi (cc) i'r Negesydd
e-bost: *negesydd@btinternet.com*

OEDFAON A CHYFARFODYDD CHWEFROR

Bore Sadwrn, 3 Chwefror, 10am tan 12pm
Bore Coffi Masnach Deg

Bore Sul, 4 Chwefror
Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

Nos Iau, 8 Chwefror 7pm
Cyfarfod Cyffredinol Blynddol Cytûn yn Emaus

Bore Sul, 11 Chwefror
Oedfa pob oed dan arweiniad y gweinidog

Pnawn Mawrth, 13 Chwefror, 3pm tan 4pm
Cyfarfod 'paned a sgwrs' a chrempogau

Bore Sul, 18 Chwefror
Oedfa dan arweiniad y Parchg Emyr Wyn Rowlands, Llangristiolus

---

Bore Sul, 25 Chwefror
Oedfa dan arweiniad y gweinidog

GWASANAETH NADOLIG EMAUS 2023

IOAN - Yr ieuengaf
yn y gynulleidfa

RHAI OEDD YN CYMRYD RHAN YN Y GWASANAETH NADOLIG

PAWB YN MWYNHAU PANED A SGWRS AR ÔL Y GWASANAETH

MASNACH DEG

Bydd y bore coffi
a siop
Masnach Deg
yn ail ddechrau
dydd Sadwrn
Chwefror 2ail
o 10-12 o'r gloch.

DEWCH I GYMDEITHASU

Rhaghysbyseb

Yn ôl ein harfer,
bydd ein bore coffi Mawrth 2ail,
yn ddathliad o Fasnach Deg, yn cefnogi
"Big Brew" Transform Trade,
ac yn gyfle i ddathlu Gwyl Dewi gyda'n gilydd.
Daw mwy o fanylion yn nes ymlaen,
ond fe fyddwn yn gofyn am wirfoddolwyr
i wneud cawl (*rysáit ar gael*)
neu gacennau (*Masnach Deg os yn bosib*).

Diolch
Catrin

CLWB DARLLEN

Dyma'r llyfrau
y byddwn ni'n
eu trafod nesaf:

2 CHWEFROR :
LLYTHYR NOEL
gan Noel Thomas, Siân Thomas ac Aled Gwyn Job.





1 MAWRTH :
A TERRIBLE KINDNESS
gan Jo Browning Wroe.

Penderfynwyd nodi dau lyfr gan fod mis Chwefror yn fyr ac o adael y dewis ar gyfer Mawrth tan y cyfarfod hwnnw mae'n bosib y byddai problem cael gafael ar y llyfr mewn pryd.

CORNEL POSAU GARETH



ATEB I BOS IONAWR 2024

POS GYRRU

Y cyflymder cyfartalog yw 15mya

Diolch i Branwen Jarvis
a Branwen Niclas
am ofalu fod blodau
ar gyfer oedfaon Mis Ionawr.

BLODAU CHWEFROR

Chwefror 4ydd a 11eg

Jennifer Thomas

- - - - -

Chwefror 18fed a 25ain

Catrin Evans

- - - - -

Mae rhestr blodau ar gyfer 2024 ar gael yn y cyntedd neu mae croeso ichi gysylltu gyda Kath neu Meriel.

Diolch
Kath a Meriel

POS CHWEFROR 2024

POS PLYGAIN

Rhif pa garol
yn CANEUON FFYDD
sy'n gyfanswm

dwsin dwsin
a
deunaw deunaw?

Beth yw llinell gyntaf y garol?

Bydd yr ateb yn rhifyn Mawrth.

GENI

Llongyfarchiadau mawr
i Catrin Tomos a Sion Gwilym
ar enedigaeth Eldra Fflur
Ionawr 18fed, chwaer fach i Branwen ac
wyres i Bryn a Marian Tomos, Moelwyn.
Croeso cynnes iawn i Eldra.

BORE COFFI TI a FI

Mae'n amlwg fod y plant wedi mwynhau eu hunain yn y bore coffi a gynhaliwyd er budd Cylch Ti a Fi Emaus yn ddiweddar. Codwyd y swm o £220. Diolch i'r rhai hynny a gyfrannodd tuag at y stondin gacennau, y rhai a fu'n helpu a hefyd, wrth gwrs, y rhai a ddaeth drwy'r gwynt a'r glaw i gefnogi.

Elen Lansdown (Ysgrifennydd y Cylch)

Y GENHADAETH

SUL BMS

Yn wahanol i'r gorffennol, ar y trydydd Sul o fis Mawrth y bydd y Dr. Menna Machreth gyda ni eleni. Byddwn yn agor y blychau yn ôl yr arfer a bydd cyfle i unrhyw un wneud cyfraniad drwy roi Siec *(Taladwy i BMS World Mission)* neu arian ar y diwrnod i mi. Mae sawl un wedi llenwi ffurflen rhodd gymorth a bydd eich rhif BMS yn cael ei nodi wrth anfon y cyfraniadau.

Edrychwn ymlaen am gael diweddariad o waith y BMS mewn gwahanol wledydd ar draws y byd.

Siân Arwel Davies

CYDNABOD BLYNYDDOEDD MAITH O WASANAETH

Mae Eglwys Emaus yn ffodus dros ben o gael gwasanaeth saith o organyddion profiadol yn cyfeilio o Sul i Sul. Enid sy'n cadw trefn arnom ac yn gofalu am y rota a diolch iddi hi am ei gwaith. Tybed sawl eglwys arall fyddai'n medru brolio bod ganddynt gynifer o organyddion? Y gwrthwyneb sy'n wir fel arfer ysywaeth, ac fe glywn yn aml am gynulleidfaoedd sydd heb neb i gyfeilio, rhai'n dibynnu ar dapiau sain, tra fo eraill yn gorfod talu i rywun gyfeilio yn yr oedfaon.

Yn yr oedfa fore Sul, Ionawr 14 eg, diolchwyd i'r organyddion am eu gwaith a'u ffyddlondeb gan Casi, ac oedd hithau wedi gofyn i bawb nodi ers pryd oeddent yn gwasanaethu wrth yr offeryn. Fe welwch bob un yn dangos union rif y blynyddoedd o wasanaeth yn y llun. Wedi gwneud ychydig o Fathamateg, cyfanswm y blynyddoedd oedd 430 ac mae hynny'n swm sylweddol iawn.
Cyflwynwyd tocyn rhodd i bob un gan ein Gweinidog ar ddiwedd yr oedfa fel arwydd o werthfawrogiad.

Gwennant Pyrs Dafydd Tecwyn Ellis Sian Arwel Davies Enid Griffiths

DIOLCH

Hoffai'r organyddion i gyd ddiolch o waelod calon i Casi am y trefniadau ddydd Sul, am ei geiriau caredig ac am yr anrheg hefyd.

Go brin fod yr un ohonom wedi cael y fath werthfawrogiad erioed o'r blaen drwy'r blynyddoedd y buom yn cyfeilio mewn oedfaon.

Diolch yn fawr Casi

Valerie Ellis Helen Owen Nia Llwyd

Yn y rhifyn yma a dau rifyn dilynol o'r Negesydd, mae'r organyddion i gyd yn cael eu holi, ac maen nhw'n datgelu ambell beth am y grefft o gyfeilio mewn oedfa.

Mi ddechreuodd Helen Owen gyfeilio mewn oedfaon yn y capel ym Mhorthmadog, pan oedd hi tua thair ar ddeg neu bedair ar ddeg mlwydd oed.
Bu Siân Arwel yn cyfeilio yn y Gobeithlu pan oedd yn yr Ysgol Gynradd yn Ffestiniog
Pan aeth i'r Ysgol Uwchradd cafodd ei galw gan Eluned Ellis Jones, gwraig gweinidog Bethania i gyfeilio yn y gwasnaethau, ac yn aml iawn, ni fyddai'n gwybod ymlaen llaw beth fyddai'r tonau

Hoff dôn Helen ydy, Tydi a Roddaist Iiw i'r Wawr, gan Arwel Hughes, a dyna ei hoff emyn hefyd a gyfansoddwyd gan T Rowland Hughes.

Hoff dôn Siân ydy Coedmor gan R Jones, a'i hoff emyn ydy'r geiriau ar yr un dôn sef, Pan oedd Iesu dan yr hoelion gan E Cefni Jones.

Un peth pwysig i'w gofio wrth gyfeilio yn ôl Helen yw gofalu fod y nodau o fewn cyrraedd cwmpawd lleisiol y gynulleidfa, ac hefyd caniatau digon o amser i anadlu rhwng y penillion.

Mae Siân yn ceisio cadw mewn cof addasrwydd y darn i'r oedfa, ac nad yw gormod o'r darnau yn y lleddf. Mae hi hefyd yn hoffi chwarae darnau y mae'n hoff ohonynt, a bod amrywiaeth tempo a genre yn y gerddoriaeth.

Cewch glywed mwy am yr organyddion yn rhifyn nesa'r Negesydd.

CYFEIRIADUR EMAUS

ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

BMS:
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

GWEINIDOG:
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

MASNACH DEG:
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

NEGESYDD - CYSODI:
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

NEGESYDD - ROTA GOLYGU:
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

PANED A SGWRS
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

ROTA BLODAU
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

ROTA'R ORGAN:
Enid Griffiths
712726

SWYDDOG DIOGELU:
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

TI A FI:
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

TRYSORYDD:
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

YSGRIFENNYDD ARIANNOL:
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243